SAMSON (c. 485 - c. 565), abad ac esgob yn yr Eglwys Geltaidd

Enw: Samson
Dyddiad geni: c. 485
Dyddiad marw: c. 565
Rhiant: Anna
Rhiant: Amwn Ddu
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: abad ac esgob yn yr Eglwys Geltaidd
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: John Williams James

mab Amwn (o Ddyfed) ac Anna (o Went). Addysgwyd ef gan Illtud yn Llan Illtud (Dyfed) o 490. Ordeiniwyd ef yn ddiacon ac offeiriad gan Ddyfrig ar gais Illtud. Mudodd i fynachlog P r (Dyfed eto) a dilynodd B r fel abad wedi ei farw. Ymwelodd ag Iwerddon (ceir eglwysi yn dwyn ei enw yn Ballygriffin, gerllaw Dulyn, ac yn Ballysamson, swydd Wexford). Dychwelodd i Ddyfed fel meudwy i ogof gerllaw Stackpole Elidyr. Cysegrwyd ef yn esgob gan Ddyfrig ac eraill ar Ddydd G yl Cadair Pedr, 521, sef 22 Chwefror. Mordwyodd i Gernyw (Padstow, Southill, a Fowey), lle y bu byw am rai blynyddoedd, a threiglodd ei ddylanwad hyd ynysoedd Scilly. Oddi yno aeth i wlad Llydaw, i ymsefydlu yn Dol lle treuliodd weddill ei oes; bu hyn cyn 547, pryd y darfu i Deilo ymweled â Samson yma pan yn ffoi rhag y Fad Felen. Prif orchwyl Samson yn Llydaw ydoedd cael rhyddhau ludual, tywysog ieuanc gogledd Llydaw, o'i gaeth-gadwraeth ym Mharis gan Childebert, y brenin Ffrancaidd, ar gais y rhaglaw dichellgar Chonomor. Wedi gorchfygu a lladd Chonomor, ymwelodd Samson unwaith eto â Pharis, i senedd esgobol y Ffranciaid, yn 556, pryd yr arwyddodd benderfyniadau'r senedd fel ' Samson peccator episcopus.' Bu farw 28 Gorffennaf 565.

Awdur

Y Canghellor John Williams James

Ffynonellau

Baring-Gould a J. Fisher, *The Lives of the British Saints*, iv, 130-70

T. Taylor, *The Life of St. Samson of Dol* (Llundain 1925) (S.P.C.K.)

Hugh Williams, *Christianity in Early Britain* (Rhydychen 1912), a'i arg. o *Gildae De excidio Britanniae fragmenta, Liber de paenitentia, accedit et Lorica Gildae / Gildas The ruin of Britain, fragments from lost letters, The penitential, together with the Lorica of Gildas*

T. Taylor, *The Celtic Christianity of Cornwall divers sketches and studies* (Llundain 1916)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Sant Samson

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q1269091

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu